

---

# 7FED GYNHADLEDD DYSGU AC ADDYSGU

## 7TH ANNUAL LEARNING AND TEACHING CONFERENCE

### 8-10 GORFFENNAF | JULY 2019

CRYNOLDEBAU / ABSTRACTS

---

## FFORWM GWEINYDDWYR

Gwahoddwyd y Fforwm i gyfrannu at y Gynhadledd Dysgu ac Addysgu eleni i gydnabod bod staff ar draws y gwasanaethau cymorth, proffesiynol a masnachol amrywiol yn y Brifysgol yn cael effaith sylweddol ar weithgareddau dysgu ac addysgu. Mae hyn yn aml yn y cefndir a thu ôl i'r llen ond mae'r cyfraniad yr un mor bwysig. Diben y sesiwn Fforwm yw rhannu enghreifftiau o arfer da a allai fod o fudd i eraill. Bydd y Fforwm yn cynnwys:

- Elizabeth Kensler a Nia Ellis yn rhannu sut mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth wedi cael achrediad gan Customer Service Excellence am lefel y gwasanaeth cwsmeriaid y maent yn ei gynnig.
- Tim Macy o'r adran Ystadau yn siarad am ddatblygu ardaloedd dysgu ledled y Brifysgol.
- Stuart Beckley a Ffion Hoare yn siarad am sut mae Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd wedi datblygu ffyrdd newydd o ymdrin â systemau graddfa fawr ar gyfer monitro presenoldeb, gweinyddu Uwchraddedigion Ymchwil, UAP a Throsoglwyddo Marciau Arholiadau. Dewch i ddysgu o'u profiadau.
- Nina yn rhannu sut mae'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth wedi gwneud defnydd helaeth o siop ar-lein y Brifysgol a sut y gellid defnyddio'r adnodd hwn i wneud bywyd yn haws wrth ymdrin â threfnu cynadleddau, digwyddiadau megis ysgolion astudio a nifer o dasgau eraill.

Bydd y sesiynau hyn yn cynnwys cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod y pynciau dan sylw, rhwydweithio â staff o amrywiaeth o adrannau academiaidd, cynorthwyol a phroffesiynol.